



**CYNGOR
CELFYDDYDAU
CYMRU: CANOLFAN
CELFYDDYDAU
GWELEDOL**

Adroddiad y Swyddfa Archwilio Cymru
Genedlaethol ar ran Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael
oddi wrth


Y Llyfrfa Oriol
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd, CF1 2BZ

Ffon 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347



Printed on Greencoat paper.
Greencoat is produced using 80% recycled fibre
and 20% virgin TCF pulp from sustainable forests.

ISBN - 1-904219-00-4



9 781904 219002



CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU: CANOLFAN CELFYDDYDAU GWELEDOL

Adroddiad y Swyddfa Archwilio

Genedlaethol ar ran Archwilydd

Cyffredinol Cymru

15 Tachwedd 2001

£12.70

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
15 Tachwedd 2001

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
23-24 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BA

ffôn: 029 20 37 8661

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: <http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm>

CYNNWYS

Crynodeb gweithredol	1
Rhan 1: Cyflwyniad	4
Cyngor Celfyddydau Cymru	4
Canolfan y Celfyddydau Gweledol	5
Archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru	7
Rhan 2: Penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan Celfyddydau Gweledol	8
Yr arian a roddwyd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol gan Gyngor Celfyddydau Cymru	8
Sail ansicr i nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd	9
Ar bob cam o'r project bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd	11
Cafodd newidiadau yn y cynigion ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol effaith niweidiol ar nifer yr ymwelwyr a oedd eisoes yn uchelgeisiol	12
Ni weithredwyd ar bryderon ynglŷn â lefel yr arbenigedd yn staff y Ganolfan	13
Arweiniodd diffyg nawdd preifat at broblemau o ran referniw	13
Bu gorwariant sylweddol ar gost y project yn dilyn amcangyfrifon gwael o gostau adeiladau	14
Pwyntiau allweddol	14
Rhan 3: Y ffordd y cafodd y broses o ddatblygu, gweithredu a chau project Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei fonitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru	16
Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru dros brojectau loteri	16
Ni wnaeth asesiad risg llawn o broject Canolfan y Celfyddydau Gweledol gan Gyngor Celfyddydau Cymru	16
Ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar bryderon a godwyd tra'n monitro Canolfan y Celfyddydau Gweledol	17
Caeodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol oherwydd problemau ariannol	18
Penderfynodd Cyngor Celfyddydau Cymru i beidio a gofyn yn syth i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ad-dalu arian y loteri	18
Pwyntiau allweddol	19
Atodiadau	20
1 Cyfarwyddiadau Polisi a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru o dan adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993	20
2 Noddwyr y Project Cyfalaf ac Incwm Referniw	21
3 Cronoleg digwyddiadau allweddol Canolfan y Celfyddydau Gweledol	22



CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyflwyniad

- 1 Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y project mawr cyntaf wedi'i ariannu gan y loteri a gafodd gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Y cysyniad oedd creu atyniad pwysig i ymwelwyr, gan ddarparu'r lleoliad mwyaf yng Nghymru ar gyfer arddangos y gelf gyfoes a hanesyddol orau o Gymru a'r byd, ynghyd ag oriel ryngweithiol i blant. Fe'i lleolwyd yn yr Hen Lyfrgell, sef adeilad mawr Fictoraidd yng nghanol dinas Caerdydd.
- 2 Gwariwyd yn agos i £8.8 miliwn, yn cynnwys y gwaith adnewyddu helaeth ar adeilad yr Hen Lyfrgell, i agor y Ganolfan. O'r swm hwn, cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £3.2 miliwn (tua 37 y cant o'r cyfanswm) o arian loteri. Rhoddodd y Cyngor dros £200,000 y flwyddyn i helpu i ariannu costau rhedeg blynyddol y Ganolfan hefyd.
- 3 Agorwyd y Ganolfan i'r cyhoedd ym mis Medi 1999. Fe'i caewyd ym mis Tachwedd 2000, dim ond 14 mis yn ddiweddarach oherwydd problemau ariannol, a achoswyd yn bennaf am fod nifer y bobl a ymwelodd â'r ganolfan dipyn yn is na'r hyn a ragwelwyd.
- 4 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried rôl Cyngor Celfyddydau Cymru wrth roi arian loteri ac arian grant mewn cymorth i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, ac yn benodol:
 - a oedd sail gadarn i'r penderfyniadau a wnaed i roi arian i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol; ac
 - a ddiogelodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fuddsoddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol pan oedd y Ganolfan yn cael ei hadeiladu a phan oedd yn weithredol a sut y rheolodd y broses o adennill ei arian a'i offer pan gaewyd y Ganolfan.

Penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol

- 5 Roedd y risg allweddol i lwyddiant ariannol project Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn ymwneud â'r targed ar gyfer nifer yr ymwelwyr. Byddai unrhyw ddiffyg sylweddol yn nifer y bobl a ymwelodd â'r Ganolfan yn golygu, yn anochel, na fyddai'r Ganolfan yn cael yr incwm disgwylidig o daliadau a godir ar ymwelwyr gan arwain at golledion gweithredol na ellid eu cynnal. Mae nifer yr ymwelwyr yn dibynnu yn dyngedfennol ar natur yr atyniad a'r polisi tâl mynediad. Canfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi'i seilio ar ddata ansicr a arweiniodd at ragamcanion rhy uchel o nifer yr ymwelwyr a rhagolygon refeniw, yn benodol:
 - yn y cais cyntaf am arian loteri tybiwyd y byddai 250,000 o bobl yn ymweld â'r Ganolfan bob blwyddyn, sef ffigur tipyn yn uwch na phob atyniad diwylliannol ac artistig arall i dwristiaid yng Nghymru namyn un (Sain Ffagan). Roedd y rhagamcan chwyddedig hwn o nifer yr ymwelwyr, yn seiliedig ar rag-dybiaeth o natur yr atyniad a'r polisi tâl, a newidiwyd drachefn, wedi arwain at darged refeniw rhy uchelgeisiol ar bob cam o'r ffordd gan gynnwys y cais am grant loteri. Dim ond 47,000 o bobl a ymwelodd â'r Ganolfan yn y flwyddyn gyntaf o gymharu â'r 250,000 a ragwelwyd yn y cais am grant;
 - ni heriodd Cyngor Celfyddydau Cymru y tybiaethau sylfaenol ynghylch y niferoedd tebygol o bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol ac nid asesodd yr effaith bosibl ar ymarferoldeb ariannol y project pe na bai'r Ganolfan yn cyrraedd y targedau hyn;

- ▶ at hynny, pan ddiwygiodd yr ymgeisydd yr amcangyfrifon o nifer y bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol ar gamau allweddol yn ystod y project, ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru herio'r amcangyfrifon diwygiedig nac asesu'r effaith a gâi hyn ar yr incwm tâl mynediad a ragwelwyd i'r Ganolfan; a
 - ▶ bu newidiadau yn y strwythur arfaethedig ar gyfer codi tâl ar ymwelwyr ac yn rhaglen agoriadol a chynnwys Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru yr effaith bosibl a gâi'r newidiadau hyn ar nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd. Ni phwysodd ar yr ymgeisydd ychwaith ynghylch sut y byddai Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn gwneud yn iawn am unrhyw ddiffyg yn nifer yr ymwelwyr.
- 6 Roedd gwendidau pwysig eraill yn y ffordd yr ymdriniodd Cyngor Celfyddydau Cymru â'r cais hwn am grant loteri sylweddol:
- ▶ tynnwyd sylw Cyngor Celfyddydau Cymru at wendidau yn y project hwn, o ran ei farchnata a diffyg nawdd refeniw preifat gan aseswr allanol y Cyngor. Ond ni weithredodd y Cyngor ar hyn, er enghraifft drwy bwysu ar yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn fel amod o'r grant; a
 - ▶ ni chafodd y cais cyntaf am £2 filiwn o arian loteri ei ategu gan wybodaeth gadarn a dibynadwy ond er gwaethaf hyn ni heriodd y Cyngor y cais am grant. Seiliwyd llawer o'r penderfyniadau allweddol ynglŷn ag ymarferoldeb y project ar adroddiad ymarferoldeb a baratowyd ym 1992, bron tair blynedd cyn y cais cyntaf am arian loteri. At hynny, roedd yr amcangyfrifon o gostau'r adeilad yn annigonol dros ben, ac o ganlyniad, bu'n rhaid gwneud cais arall am arian loteri i dalu am y cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu.

Y ffordd y cafodd y broses o ddatblygu, gweithredu a chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei monitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru

- 7 Ar ôl i Gyngor Celfyddydau Cymru wneud penderfyniad i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol, roedd dyletswydd arno i ddiogelu'r buddsoddiad hwnnw. Canfu Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru fod y project hwn wedi cael ei fonitro'n wan gan y Cyngor. Pan oedd y Ganolfan yn cael anawsterau, nid oedd y Cyngor yn meddu ar y ffeithiau llawn ac roedd yn anodd iddo gael y wybodaeth yr oedd ei hangen i weithredu'n gyflym er mwyn sicrhau ei fod yn adennill cymaint o asedau â phosibl.
- 8 Ymhlith y gwendidau allweddol yn y ffordd y cafodd project Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei fonitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru roedd:
- ▶ nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru y risgiau allweddol i'r gwaith o ddarparu a gweithredu Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu monitro'n drwyadl. Ni sicraodd y Cyngor ychwaith fod gwaith cynllunio wrth gefn digonol pe bai'r risgiau hyn yn codi;
 - ▶ pan oedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn cael ei hadeiladu, a phan oedd yn weithredol, roedd yn anodd i Gyngor Celfyddydau Cymru gael gwybodaeth ariannol reolaidd ac amserol ynglŷn â'r Ganolfan, ac roedd hyn yn rhwystro'r gwaith o fonitro'r project;

- ▶ nid oedd y Cyngor yn monitro Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn effeithiol yn yr ystyr nad oedd yn ymwybodol bod y cynlluniau wedi newid mewn modd allweddol nes ei bod yn rhy hwyr i newid y cynllun adeiladu;
 - ▶ ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar bryderon pwysig a godwyd gan fonitrydd y project, er ei fod ar y pryd yn ystyried cais arall am arian loteri gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol;
- 9 Pan gaewyd Canolfan y Celfyddydau Gweledol ym mis Tachwedd 2000, ni cheisiodd Cyngor Celfyddydau Cymru weithredu'r amodau adfachu lle y gellid ceisio adennill yr arian a roddwyd i'r Ganolfan. Yn hytrach mae wedi trafod â'r ymgeisydd i drosglwyddo asedau yn cyfansymio i ryw £104,000 i sefydliadau elusennol trydydd parti. Ym mis Medi 2001, roedd bron â bod £110,000 o eitemau a ariannwyd yn rhannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel y'u rhestrwyd ar restr eiddo Canolfan y Celfyddydau Gweledol, heb eu hadennill. Allan o'r swm hwn, mae asedau yn cyfansymio i ryw £87,000 dal yn adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd ac yn cynnwys eitemau sy'n anodd cymryd i ffwrdd, fel desg y dderbynfa a adeiladwyd am y pwrpas. Mae gweddill yr asedau yn cyfansymio i ryw £20,000 ac ar goll neu wedi'u gwerthu i staff. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn aros am ateb Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd ynglŷn â beth sydd wedi digwydd i'r rhain.

Sylwadau ac argymhellion i gloi

- 10 Nid oes yr un project celfyddydol wedi'i ariannu gan y loteri heb risgiau. Dengys y canfyddiadau hyn fod angen i Gyngor Celfyddydau Cymru fod yn fwy trylwyr wrth asesu'r risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â phrojectau loteri unigol; ac yn fwy cadarn wrth fonitro projectau er mwyn rheoli'r risgiau hyn fel y gellir osgoi problemau posibl neu eu datrys yn gyflym. Yn arbennig, lle y mae llwyddiant ariannol y project yn dibynnu ar gynhyrchu incwm o ymwelwyr, fel yn achos Canolfan y Celfyddydau Gweledol, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod achos busnes y project wedi'i seilio ar farn realistig a doeth ynglŷn â'r niferoedd tebygol o ymwelwyr. Dylai'r Cyngor fod yn effro i'r risgiau hyn wrth fonitro'r project a dylai weithredu'n gadarn ar unrhyw bryderon a godir ynglŷn â'r project. At hynny, dylai fod cynlluniau wrth gefn digonol pe bai'r risgiau hyn yn codi.
- 11 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi sicrwydd i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ei fod yn cydnabod y gwendidau yn ei brosesau a'i weithdrefnau mewn perthynas â'r grant loteri hwn a ddyfarnwyd a'i fod wedi cymryd camau i'w hunioni neu y bydd yn cymryd camau unioni.

- 1.1 Cysyniad Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd creu atyniad pwysig i ymwelwyr wedi'i leoli yng nghanol dinas Caerdydd, gan ddarparu'r lleoliad mwyaf yng Nghymru ar gyfer arddangos y gelf gyfoes a hanesyddol orau o Gymru a'r byd, ynghyd ag oriel ryngweithiol i blant. Fe'i lleolwyd yn yr Hen Lyfrgell, sef adeilad mawr rhestredig Gradd II a adeiladwyd ar ddiwedd yr Oes Fictoraidd. Mae bellach ynghanol ardal siopa i gerddwyr yn unig yng Nghaerdydd.
- 1.2 Agorwyd y Ganolfan i'r cyhoedd ym mis Medi 1999. Fodd bynnag, fe'i caewyd dim ond 14 mis yn ddiweddarach ym mis Tachwedd 2000 oherwydd problemau ariannol a achoswyd yn bennaf am fod nifer y bobl a ymwelodd â'r Ganolfan dipyn yn is na'r hyn a ragwelwyd.
- 1.3 Gwariwyd bron £8.8 miliwn mewn costau cyfalaf, yn cynnwys y gwaith adnewyddu helaeth yn adeilad yr Hen Lyfrgell, i agor y Ganolfan. O'r swm hwn, cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £3.2 miliwn (37 y cant o'r cyfanswm) mewn arian loteri. Rhoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £200,000 y flwyddyn o arian grant mewn cymorth er mwyn helpu i ariannu costau rhedeg y Ganolfan hefyd. Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y project mawr cyntaf wedi'i ariannu gan y loteri a gafodd gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cyngor Celfyddydau Cymru

- 1.4 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd fel corff cyhoeddus anadrannol o dan Siarter Frenhinol ar 1 Ebrill 1994 fel un o gyrff olynol Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr. Daeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 1999 pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb o Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- 1.5 Ceir disgrifiad byr isod o fframwaith atebolrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yr Ysgrifennydd dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y fframwaith polisi sy'n rheoli'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am roi cyfarwyddiadau ariannol i Gyngor Celfyddydau Cymru, ond dim ond drwy ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y gall weithredu'r swyddogaeth hon.

Yr Ysgrifennydd Parhaol dros Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw Swyddog Cyfrifo Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ac mae'n rhaid iddo fodloni ei hun fod systemau addas ar waith i sicrhau y caiff arian y Loteri Genedlaethol ei ddefnyddio'n briodol cyn awdurdodi'r defnydd hwnnw.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw corff nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n rhoi tua £16 miliwn o arian grant mewn cymorth i'r Cyngor bob blwyddyn i gefnogi amcanion Siarter Frenhinol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn dosbarthu tua £14 miliwn o'r arian hwn ar ffurf grantiau i sefydliadau celfyddydol yng Nghymru. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol hefyd am roi cyfarwyddiadau polisi (gweler Atodiad 1) i Gyngor Celfyddydau Cymru ynghyd â'r defnydd a wneir o arian loteri, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael sicrwydd bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu ei arian yn unol â'i fframwaith rheoliadol gan roi sylw priodol i werth am arian; i'w fodloni ei hun fod rheolaethau ariannol a rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydymffurfio â'r gofynion o ran ymddwyn yn briodol a rheoli arian yn dda; ac i gyngori'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghyd ag addasrwydd Cyngor Celfyddydau Cymru i ddefnyddio arian Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn gyfrifol am roi cymorth i sefydliadau ac artistiaid unigol sy'n ymwneud â phob math o gelfyddyd a'u helpu i gynhyrchu gwaith rhagorol a dyfeisgar. Mae'n cefnogi artistiaid o Gymru i gynhyrchu gwaith o safon ac yn eu helpu i hyrwyddo a chyflwyno eu hunain a mynd ar deithiau ledled Cymru a thramor, gyda'r nod o gynyddu'r nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol a nifer y pryniadau. Mae'n gyfrifol hefyd am roi arian loteri i sefydliadau ac am fonitro'r ffordd y caiff yr arian a roddwyd ei ddefnyddio ynghyd â'r effaith gyffredinol a gaiff. Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r Swyddog Cyfrifo. Fe'i rheolir gan gyngor, sy'n cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael tâl ac fe'u penodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y rhai sy'n derbyn grantiau yw'r sefydliadau a'r unigolion sy'n cael arian oddi wrth y loteri a chronfeydd grant mewn cymorth, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn sefydliadau elusennol neu gyhoeddus.

Nid yw'r cwmni sector preifat sy'n gweithredu'r Loteri Genedlaethol (Camelot Group plc), na'r rheolydd (Comisiwn y Loteri Genedlaethol) yn ymwneud â'r broses o ddsbarthu arian i achosion da y Loteri Genedlaethol.

1.6 O dan Ddeddf Loteri Genedlaethol 1993 dynodwyd Cyngor Celfyddydau Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol i'r celfyddydau yng Nghymru. Yn sgil cyflwyno'r Loteri Genedlaethol, mae'r arian a ddsberthir i'r celfyddydau bob blwyddyn yng Nghymru wedi mwy na dyblu (gweler Ffigur 1). Caiff Cyngor Celfyddydau Cymru tua £14 miliwn o arian loteri bob blwyddyn i'w fuddsoddi yn y celfyddydau ac ers dyfodiad arian loteri ym 1994, mae wedi gwneud tua 2,400 o ddyfarniadau o'r loteri gan ddsbarthu bron £99 miliwn i gyrff celfyddydol yng Nghymru (gweler Ffigur 2).


1.7 Y sawl sy'n cael y grant sy'n gyfrifol am reoli projectau wedi'u hariannu gan y loteri. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar Gyngor Celfyddydau Cymru o dan y cyfarwyddiadau ariannol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i ddiogelu arian y loteri. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn asesu pob cais am arian loteri yn erbyn meini prawf a bennwyd ymlaen llaw i benderfynu ar y projectau y bydd yn eu cefnogi. Gall geisio cyngor annibynnol gan aseswr allanol hefyd. Ar ôl dyfarnu grant, mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru fonitro projectau er mwyn sicrhau y caiff arian loteri ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd a bod projectau'r loteri yn sicrhau'r manteision a ddisgwylir. Mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru gael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gan y sawl sydd wedi gwneud cais am arian loteri a phenodi'r monitrydd project allanol ar gyfer pob project dros £100,000 sy'n rhoi cyngor annibynnol i'r Cyngor ynglŷn â'r cynnydd a wna'r project.

Canolfan y Celfyddydau Gweledol

1.8 Deilliodd y cysyniad o leoli Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd allan o drafodaethau a gafwyd ar ddiwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au rhwng hen Gyngor Celfyddydau Cymru - is-bwyllgor o Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr, a chorff rhagflaenol Cyngor Celfyddydau Cymru - a Chyngor Dinas Caerdydd - yr awdurdod lleol yng Nghaerdydd a chorff rhagflaenol Cyngor Sir Caerdydd. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriwyd sawl opsiwn ar sut i ddefnyddio adeilad Hen Lyfrgell

Ffigur 1


Dyfarniadau o'r loteri a dyfarniadau grant mewn cymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru



Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

Ffigur 2

Gwerth cynyddol dyfarniadau o'r Loteri



Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru

Caerdydd. Ym 1992, sefydlwyd grŵp llywio ar y cyd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o hen Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Caerdydd i ymchwilio i sut y gellid gwneud defnydd diwylliannol o adeilad yr Hen Lyfrgell. Ym 1992 comisiynodd y grŵp llywio Adrian Ellis Associates, sef cwmni o ymgynghorwyr rheoli a busnes o Lundain, i baratoi adroddiad ymarferoldeb. Talwyd am yr adroddiad hwn gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru. Ym 1994, sefydlwyd Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd fel cwmni cyfyngedig drwy warant â statws elusennol, er mwyn codi arian i ailddatblygu'r Hen Lyfrgell. Roedd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru, yn cadeirio'r Grŵp Llywio ar y Cyd ac yn Llywydd ar Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae e hefyd yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston, un o brif noddwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Fodd bynnag, nid oedd

ganddo rôl yng Nghyngor Celfyddydau Cymru pan y'i sefydlwyd ym mis Ebrill 1994 ac nid oedd yn ymwneud â dosbarthu arian loteri.

1.9 Ar ôl i'r Loteri Genedlaethol gael ei lansio ym mis Tachwedd 1994, gwnaeth Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd gais am arian loteri a chafodd yr arian hwnnw i'w fuddsoddi yng Nghanolan y Celfyddydau Gweledol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Daeth yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a gweinyddu Canolfan y Celfyddydau Gweledol.


1.10 Llwyddodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol i gael cymorth ariannol oddi wrth nifer o noddwyr gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru. Noda **Ffigur 3** y symiau a gyfrannodd y noddwyr tuag at gostau cyfalaf y project a noda **Ffigur 4** yr arian refeniw fesul noddwr y project. Hefyd, gosododd Cyngor Sir Caerdydd, fel perchennog, adeilad yr Hen Lyfrgell ar brydles i Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd am 125 o flynyddoedd am rent rhad. Ceir manylion llawn ar noddwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn Atodiad 2.

1.11 Nodir prif ddigwyddiadau project Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn **Ffigur 5**. Mae cronoleg lawn y Ganolfan yn Atodiad 3.

1.12 Cafodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol broblemau o ran refeniw hyd yn oed cyn y diwrnod agoriadol ym mis Medi 1999. Ar ôl oedi yn y raglen adnewyddu bu'n rhaid gohirio agor y Ganolfan am chwe mis. Golygodd hyn fod ganddi ddiffyg sylweddol ar ôl recriwtio a cyflogi staff o ragweld diwrnod agoriadol cynharach. Aeth y diffyg yn waeth fyth yn sgil y tangyflawniad sylweddol yn y nifer o bobl a ymwelodd â'r Ganolfan yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu. O gymharu â rhagamcan o £500,000 y flwyddyn, dim ond tua £52,862 o incwm tâl mynediad a gynhyrchwyd gan y Ganolfan yn ystod y saith mis o weithredu ym 1999/2000 ac incwm o £60,662 ar gyfer y saith mis o weithredu yn 2000/2001. Ym mis Mawrth 2000, cyflogodd Cyngor Celfyddydau Cymru ymgynghorydd i weithio gyda Chanolfan y Celfyddydau Gweledol i nodi opsiynau ar gyfer dyfodol ariannol mwy diogel i'r Ganolfan. Gwnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru grant refeniw ychwanegol o £50,000 hefyd. Ar ôl adolygu'r opsiynau a gyflwynwyd gan yr ymgynghorydd yn ei adroddiad, ni lwyddodd Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru i gytuno ar yr opsiwn mwyaf ymarferol ar gyfer y dyfodol. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn

Ffigur 3


Cyfraniad Arian Parod i arian cyfalaf Canolfan y Celfyddydau Gweledol



Nodyn: Ceir manylion llawn yn Atodiad 2

Ffigur 4

Arian refeniw cynyddol Canolfan y Celfyddydau Gweledol 1990/2000 a 2000/2001



Nodyn: Ceir manylion llawn yn Atodiad 2

Ffigur 5

Digwyddiadau allweddol Canolfan y Celfyddydau Gweledol

Dyddiad	Digwyddiad allweddol
Chwefror 1994	Creu Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd Cyf, sef cwmni cyfyngedig drwy warant, fel modd i godi arian i ailddatblygu'r Hen Lyfrgell, Caerdydd. Cofrestru'r Ymddiriedolaeth yn elusen
Mawrth 1995	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu £2 filiwn o arian loteri i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol
Mawrth 1997	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu ail grant o £723,000 o'r loteri
Mai 1998	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu trydydd grant o £555,000 o'r loteri
Medi 1999	Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn agor
Tachwedd 2000	Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn cau

ymrwymedig i barhau i roi'r grant refeniw craidd y cytunwyd arno i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ond nid oedd yn gallu rhoi unrhyw arian ychwanegol. Penderfynodd Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd i gau Canolfan y Celfyddydau Gweledol i'r cyhoedd ar 5 Tachwedd 2000.

Archwiliad Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru

1.13 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried rôl Cyngor Celfyddydau Cymru wrth roi grantiau cyfalaf o'r loteri ac arian refeniw grant mewn cymorth i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Cyfwelodd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru â swyddogion allweddol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru ac archwiliodd ffeiliau am:

- ▶ y gwaith ymchwil a wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru i'r angen am atyniad celfyddydau gweledol yng Nghaerdydd;
- ▶ y broses o gymeradwyo'r arian loteri a roddodd Cyngor Celfyddydau Cymru i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol;
- ▶ y ffordd y cafodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei monitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru; a
- ▶ y broses o gau Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

1.14 Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, ystyriwyd dau fater penodol gennym:

- ▶ a oedd sail gadarn i'r penderfyniadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i roi arian i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol (**Rhan 2**); ac
- ▶ a ddiogelodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fuddsoddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol pan oedd y Ganolfan yn cael ei hadeiladu a phan oedd yn weithredol a sut y rheolodd y broses o adennill ei arian a'i offer pan gaewyd y Ganolfan (**Rhan 3**).

RHAN 2: PENDERFYNIAD CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU I ARIANNU CANOLFAN CELFYDDYDAU GWELEDOL

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried penderfyniadau Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu project Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Yn benodol mae'n ystyried y ffactorau allweddol a ddylanwadodd ar broblemau ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol:

- ▶ nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd;
- ▶ newidiadau i'r strwythur prisio a chynnwys y Ganolfan;
- ▶ arbenigedd y staff a oedd yn rhedeg Canolfan y Celfyddydau Gweledol;
- ▶ lefel y nawdd preifat i'r project; a
- ▶ pa mor ddibynadwy oedd yr amcangyfrifon o gostau adeiladu.

Yr arian a roddwyd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol gan Gyngor Celfyddydau Cymru

2.2 Rhwng 1995-2000, rhoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £3.7 miliwn mewn grantiau cyfalaf a referniw i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, fel y nodwyd yn **Ffigur 6**.

2.3 Yn dilyn lansio'r Loteri Genedlaethol ym mis Tachwedd 1994, Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y project mawr cyntaf wedi'i ariannu gan y loteri a gafodd gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Gwnaeth Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell

Caerdydd gais am arian loteri at gostau cyfalaf Canolfan y Celfyddydau Gweledol gan ddefnyddio ffurflen gais a gweithdrefnau safonol y Cyngor. Darparwyd papurau ategol gan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys yr adroddiad ymarferoldeb manwl a baratowyd ym 1992 gan Adrian Ellis Associates, sef cwmni o ymgynghorwyr rheoli a busnes, yn arbenigo mewn cynllunio strategol i gwmnïau diwylliannol. Ariannwyd yr adroddiad hwn gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru. Nas paratowyd yr adroddiad hwn gyda'r nôd o sicrhau arian loteri (gweler paragraff 1.8).

2.4 Asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru geisiadau'r Ymddiriedolaeth gan ddefnyddio meini prawf asesu safonol, a oedd yn seiliedig ar y Cyfarwyddiadau Polisi a roddwyd i'r Cyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 26(1) o Ddeddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (gweler Atodiad 1), sef:

- ▶ y manteision tebygol i bobl a chymunedau Cymru ar draws pob sector rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd;
- ▶ addasrwydd y project, o ran ansawdd a maint, i'r sefydliad sy'n gwneud y cais yn ogystal â'r darpar ddefnyddwyr;
- ▶ gwella mynediad pobl ag anabledau i'r celfyddydau;
- ▶ safon y cynlluniau marchnata er mwyn cael y budd mwyaf o'r project;

Ffigur 6

Arian a roddwyd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol

Diben yr arian	Dyddiad y'i cymeradwywyd	Swm y grant £	Swm a dalwyd £	Gweddill £
Grantiau Loteri				
Ailddatblygu'r Hen Lyfrgell, Caerdydd	24/03/95	2,000,000	2,000,000	-
Costau ychwanegol ailddatblygu'r Hen Lyfrgell, Caerdydd	21/03/97	723,000	723,000	-
Offer i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol	08/05/98	550,000	516,709	33,291
		3,273,000	3,239,709	33,291
Grant mewn cymorth referniw blynyddol				
▶ Cymorth referniw blynyddol, 1999-00, a chostau cyn agor y project	12/02/99	279,942	279,942	-
▶ Cymorth referniw blynyddol 2000-01	11/02/00	210,275	157,744	52,531
▶ Grant referniw atodol, 1999-00	17/03/00	50,080	50,080	-
		540,297	487,766	52,531
Cyfanswm Yr Arian		3,813,297	3,727,475	85,822

- ▶ y berthynas rhwng y project a phrojectau eraill yn yr un ardal neu'r lleoliad;
- ▶ safon y cynlluniau ar gyfer rhaglenni addysg a rhaglenni rhagarweiniol;
- ▶ a yw'r project yn ychwanegol at y gwaith a ariannwyd eisoes;
- ▶ symiau eraill o arian a roddir i'r project;
- ▶ gallu tîm rheoli'r ymgeisydd i gyflawni'r project; ac
- ▶ ymarferoldeb ariannol y project a'r effaith hirdymor a gaiff ar sefydlogrwydd ariannol yr ymgeisydd.

Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd i McCann Matthews Millman, sef cwmni o ymgynghorwyr rheoli a busnes, baratoi asesiad annibynnol o Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Mae'r Cyngor yn ceisio cyngor aseswr allanol ar bob cais am fwy na £100,000 fel mater o reol. Mae'r aseswr yn cynghori a yw cynllun busnes y project yn cyflwyno achos argyhoeddiadol ac a yw'n debygol o gyflawni'r manteision a ragwelir.

- 2.5 Ymdriniodd Cyngor Celfyddydau Cymru â phob cais am arian loteri gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd mewn modd cyson. Cymeradwyodd y Cyngor y ceisiadau am arian yn seiliedig ar asesiad clodforus o broject Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

Sail ansicr i nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd

- 2.6 Roedd ymarferoldeb ariannol achos busnes Canolfan y Celfyddydau Gweledol a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn dibynnu ar y dybiaeth y byddai dros chwarter miliwn o bobl yn talu i ymweld â'i harddangosfeydd yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan gynyddu i ryw 340,000 yn flynyddol erbyn blwyddyn 10. Yn ôl y strwythur prisio a ragwelwyd yn wreiddiol byddai'r Ganolfan yn codi tâl mynediad o £2.95, a thâl gostyngol o £1.75. Fodd bynnag, dim ond 47,000 o bobl a ymwelodd â'r Ganolfan yn ei blwyddyn weithredol gyntaf sef un ymwelydd o bob pump a ragwelwyd. Y diffyg hwn yn nifer yr ymwelwyr oedd y prif reswm dros y problemau ariannol a gafodd y Ganolfan ac arweiniodd hyn, yn y pen draw, at gau'r Ganolfan.

- 2.7 Er i gysyniad y project newid rhwng 1992 a 1999 mewn ffyrdd a effeithiodd y nifer o ymwelwyr (gweler paragraffau 2.20 a 2.24) seiliwyd nifer o benderfyniadau allweddol yn ystod y project, gan gynnwys y rhagamcan o nifer yr ymwelwyr, ar yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992. Roedd y rhagamcan o 250,000 o ymwelwyr yn y flwyddyn gyntaf wedi'i seilio ar gymariaethau ag amgueddfeydd ac orielau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig; ynghyd â gwaith ymchwil i asesu'r farchnad leol.


Defnyddio grŵp cymharol o amgueddfeydd ac orielau

- 2.8 Yn yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992, cymharwyd niferoedd o ymwelwyr â sawl amgueddfa ac oriel yn y Deyrnas Unedig, fel y nodwyd yn **Ffigur 7**, a defnyddiwyd hyn fel amcan o'r nifer o bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol o bosibl.

Ffigur 7

Y grŵp cymharol a ddefnyddiwyd i ragweld nifer yr ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol

Nifer yr ymwelwyr, ffigurau 1991




Ffynhonnell: Astudiaeth Ymarferoldeb 1992

2.9 Cydnabyddodd yr adroddiad bod y mwyafrif o amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru yn denu llai na 100,000 o ymwelwyr. Er hynny, wrth ystyried natur yr atyniad ar gynllun, ystyriodd yr astudiaeth ymarferoldeb hefyd nifer o'r atyniadau mwyaf i dwristiaid yng Nghymru, gweler **Ffigur 8**.

2.10 Mae rhagweld nifer y bobl a fydd yn ymweld ag atyniad cyhoeddus newydd yn dasg anodd yn ei hanfod. Ac eto roedd nifer o ffactorau a allai fod wedi achosi pryder i Gyngor Celfyddydau Cymru o ran dibynadwyedd y rhagamcan yn y cais loteri cyntaf o 250,000 o ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol. Yn gyntaf, roedd y nifer o bobl a ymwelodd â'r amgueddfeydd ac orielau cymharol yn amrywio'n sylweddol, o 40,000 yn Oriel Fruitmarket yng Nghaeredin i 597,260 yn Oriel Tate yn Lerpwl. Roedd y rhagamcan o 250,000 o ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol yn uwch na'r cyffredin ar gyfer yr amgueddfeydd a'r orielau cymharol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn uwch na phob un o'r rhai cymharol yng Nghymru namyn un. Fodd bynnag, nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru yr effaith bosibl ar gyllid arfaethedig y Ganolfan pe bai yn denu llai o ymwelwyr na'r disgwyl.

2.11 At hynny, roedd rhai o'r amgueddfeydd a'r orielau a ddefnyddiwyd yn y grŵp cymharol yn wahanol iawn i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol mewn rhai agweddau allweddol, ac roedd hyn yn golygu bod y broses - sydd yn hanfodol anodd beth bynnag - yn llai tebygol o arwain at ragamcanion cywir.



• **Nid oes tâl mynediad i rai o'r amgueddfeydd/orielau** - mae mynediad am ddim i Oriel Arnolfini ym Mryste ac Oriel Tate yn Lerpwl. Roedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn bwriadu codi tâl mynediad ar bob ymwelydd, a oedd yn ffactor arwyddocaol wrth ragweld nifer yr ymwelwyr. Ym mis Rhagfyr 1988, cyflwynodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd dâl mynediad a bu gostyngiad o 65% yn nifer y bobl a ymwelodd â'r Amgueddfa yn y cyfnod rhwng 1987 a 1991.

• **Roedd nifer o'r amgueddfeydd/orielau cymharol yn rhan o atyniadau eraill, mwy** - er enghraifft, mae Oriel Tate yn rhan o Ddociau Albert yn Lerpwl, sef yr atyniad mwyaf poblogaidd ond un i ymwelwyr yn y DU; mae oriel Arnolfini ym Mryste yn rhan o ganolfan ar lan y dŵr sy'n cynnwys sinema a barrau; ac mae Amgueddfa Catrawd Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru wedi'i lleoli yng Nghastell Caernarfon, sy'n atyniad poblogaidd iawn ynddo'i hun. Doedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol ddim yn ran o atyniad celfyddydau mwy, ond eto, roedd i'w leoli yn ganolog yng Nghaerdydd.

• **Roedd y grŵp cymharol yn cynnwys amgueddfeydd yn ogystal ag orielau celf** - mae marchnad amgueddfeydd yn aml yn wahanol i farchnad orielau celf ac efallai na fydd y farchnad hon yn ddangosydd ystyrlon o ran ymwelwyr ag orielau celf. Er enghraifft, mae Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan yn atyniad awyr agored wedi'i anelu at deuluoedd a fydd yn treulio'r diwrnod cyfan ar y safle. Ceir mannau picnic a pharciau yn ogystal â'r atyniadau eu hunain. Nid yw nifer y bobl sy'n ymweld â'r Amgueddfa Werin yn dynodi'r nifer a fydd yn ymweld ag oriel gelf.

2.12 Awgrymodd atyniadau celfyddydol cymharol eraill yng Nghymru fod nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn uchelgeisiol o bosibl:

• bu'r Oriel yng Nghaerdydd, o dan adain Cyngor Celfyddydau Cymru, yn cynnal arddangosfeydd celf am ddim yng Nghaerdydd ers blynnydoedd lawer, er ar raddfa fechan, ond roedd yn rheolaidd yn denu llai na 50,000 o ymwelwyr bob blwyddyn; a

- bu Adeilad yr Hen Lyfrgell ei hun yn cynnal arddangosfeydd celf llai, ac am ddim, ac yn ystod 1990-1991 denodd tua 71,000 o ymwelwyr. Arddangosfa ar Anne Frank a ddenodd y nifer fwyaf o ymwelwyr mewn mis, sef tua 12,000 o ymwelwyr.

Ymchwilio i'r farchnad leol

2.13 Roedd yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 yn cynnwys ymchwil i asesu tueddiad pobl o fewn taith car 45 munud i Gaerdydd i ddefnyddio neu ymweld ag atyniad celfyddydol wedi'i leoli yng nghanol dinas Caerdydd. Dadansoddodd gyfansoddiad y farchnad trigolion, plant ysgol, ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr tramor gan ddefnyddio ffigurau demograffig cyfartalog i asesu faint o bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol o bosibl. Yn yr asesiad hwn daethpwyd i'r casgliad y byddai'r Ganolfan yn denu 282,000 o ymwelwyr yn y flwyddyn gyntaf, gan gynyddu i 340,000 - 345,000 o fewn deng mlynedd.

2.14 Rhoddodd yr astudiaeth ymarferoldeb rywfaint o sylw i'r amgylchedd lleol ac amgylchiadau Cymru. Mae'r dalgylch yn ardal amrywiol iawn, sy'n cynnwys rhai o'r rhannau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag nid oedd yr asesiad yn cynnwys unrhyw arolygon o bobl sy'n byw o fewn, neu'n ymweld â'r dalgylch, er mwyn cael darlun cliriach o duedd y boblogaeth leol i ymweld ag orielau. At hynny, oherwydd newidiodd natur yr atyniad ymwelwyr yn sylfaenol ar ôl i'r astudiaeth ymarferoldeb orffen, nid oedd yr astudiaeth yn trafod mater craidd sef faint o arian y byddai pobl yn barod i'w dalu i ymweld ag oriel gelf gyfoes yng nghanol dinas Caerdydd.

2.15 Dangosodd yr ymchwil mai tua saith y cant o'r boblogaeth leol sy'n ymweld ag orielau, sydd dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ymweld ag orielau celf, gyda phwysoliad o 76 yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol o 100. Mae'r casgliad hwn yn yr astudiaeth ymarferoldeb yn wrthgyferbyniad llwyr i'w ragamcan y byddai mwy o bobl yn ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol na'r nifer gyfartalog o ymwelwyr â'r grŵp cymharol o amgueddfeydd ac orielau.

2.16 Seiliwyd yr asesiad o'r farchnad bosibl hefyd ar nifer o dybiaethau:

- bod ymwelwyr â'r rhanbarth yn hanner llai tebygol o ymweld â'r Ganolfan o gymharu â phobl leol;

- y byddai un o bob deg o blant yn ymweld â'r Ganolfan gyda'r ysgol;

- y byddai'r un nifer o ymwelwyr tramor yn ymweld â'r Ganolfan o gymharu ag ymwelwyr o'r DU;

- y byddai cynnydd o 9 y cant yn nifer yr ymwelwyr ym mlwyddyn dau a 5 y cant ym mlwyddyn 3; ac

- y byddai nifer yr ymwelwyr yn ymsefydlu ar lefel tua 20 y cant yn uwch na'r ffigurau ar yr adeg lansio (hy 340,000).

Fodd bynnag, tra'n cydnabod ei fod yn anodd gwneud tybiaethau, nid oedd esboniad am y tybiaethau penodol hyn nac asesiad yn yr adroddiad o'r goblygiadau i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol pe bai'r tybiaethau'n anghywir. Ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ymdrin â'r pwyntiau hyn, na sicrhau bod cynllun marchnata manwl yn sail iddynt.

2.17 Ym mis Medi 1996, fel rhan o'r trydydd cais am arian loteri, comisiynodd Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd gwmni ymchwil i'r farchnad i gynnal arolwg agwedd o farn trigolion Caerdydd ynglŷn â'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer yr Hen Lyfrgell. Fodd bynnag, nid oedd yr arolwg hwn yn cynnwys ardaloedd y tu allan i ardal Cyngor Sir Caerdydd, ac felly roedd yn anwybyddu poblogaeth yr ardaloedd cyfagos a oedd yn hanfodol i'r Ganolfan ddenu nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd. At hynny, nid oedd unrhyw gwestiwn yn yr arolwg yn holi a fyddai pobl yn barod i dalu i ymweld ag oriel gelf gyfoes.

Ar bob cam o'r project bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd

2.18 Roedd denu'r niferoedd arfaethedig o ymwelwyr yn ffactor allweddol o ran llwyddiant ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Byddai unrhyw ddiffyg yn y niferoedd hyn yn golygu na fyddai'r Ganolfan yn cael yr incwm disgwylidig o godi tâl ar ymwelwyr, gan arwain at golledion gweithredol na ellid eu cynnal. Ar sawl cam allweddol o'r project, bu gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd1 (**gweler Ffigur 9**) ond ni ddiwygiwyd yr incwm o dâl mynediad yn yr un modd.

2.19 Ni nododd Cyngor Celfyddydau Cymru yr anghysonderau hyn ac ni ofynnodd i Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd esbonio pam bod nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd ganddi wedi gostwng. Ac ni ofynnodd y Cyngor ychwaith i'r Ymddiriedolaeth egluro'r gostyngiad cyfatebol mewn refeniw na diwygio ei chynllun busnes.

Ffigur 9**Nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol**

Cam	Nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd ym mlwyddyn 1 ¹	Gostyngiad fel canran
Astudiaeth ymarferoldeb 1992	282,000	
Cais cyntaf am arian loteri ym mis Ionawr 1995	252,000	-11%
Ail gais ym mis Ionawr 1997	205,000	-27%
Trydydd cais ym mis Chwefror 1998	182,000	-36%

Nodyn 1: Yn yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 rhagwelwyd y byddai nifer yr ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol yn cynyddu o 282,000 yn y flwyddyn gyntaf i 340,000 erbyn blwyddyn deg.

Cafodd newidiadau yn y cynigion ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol effaith niweidiol ar nifer yr ymwelwyr a oedd eisoes yn uchelgeisiol

Bu newid yn strwythur codi tâl Canolfan y Celfyddydau Gweledol

2.20 Bu sawl newid yn strwythur codi tâl arfaethedig Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn ystod oes y project. Yn yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 cynigiwyd tâl mynediad llawn o £2.00 a thâl gostyngol o £1.00 i blant, pobl ddigyflog, myfyrwyr a phensiynwyr. Erbyn y cais cyntaf am arian loteri ym mis Mawrth 1995, cynigiwyd codi tâl mynediad llawn o £2.95 a thâl gostyngol o £1.75. Dywedodd aseswr allanol y cais am arian loteri yn ei adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru y byddai'n rhaid i'r arddangosfeydd celf fod o safon eithriadol o dda er mwyn i'r taliadau hyn beidio ag atal pobl rhag ymweld â'r Ganolfan.

2.21 Erbyn i'r Ganolfan agor i'r cyhoedd ym 1999, roedd y tâl mynediad wedi cynyddu i £3.50 am bris llawn a £2.50 am bris gostyngol. Er gwaethaf y newidiadau hyn yn y strwythur prisio, nid ystyriwyd yr effaith bosibl a gâi'r prisiau cynyddol hyn ar y rhagamcanion o ymwelwyr fel y'u nodwyd yn yr adroddiad ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 o gwbl.

Bu newid yn rhaglen agoriadol Canolfan y Celfyddydau Gweledol

2.22 Yn yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 rhagwelwyd y byddai llwyddiant Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn dibynnu ar gyfuniad o gelf arbrofol a datblygiadol ac arddangosfeydd o waith celf byd enwog sydd wedi ennill ei blwyf. Cynigiwyd y dylid defnyddio Canolfan y Celfyddydau Gweledol ar gyfer arddangosfeydd dros dro "ysgubol" o waith meistri'r byd celf megis Picasso, Matisse neu Mondrian, neu waith cerflun a gemwaith o India neu China. Fodd bynnag, bu newid yn y polisi hwn yn y cais cyntaf am arian loteri, lle y nodwyd y byddai'r rhaglen yn cynnwys arddangosfeydd o waith celf weledol gyfoes yn bennaf. Roedd y rhaglen derfynol yn cynnwys artistiaid modern cyfoes yn bennaf.

2.23 Tynnwyd sylw Cyngor Celfyddydau Cymru at y cyfeiriad newydd hwn ym mis Ebrill 1995 gan aelod o'i Fwrdd Loteri Ymgynghorol, sef pwyllgor a oedd yn asesu ceisiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â phrojectau gwerth dros £50,000. Mynegodd ei bryder na fyddai gwaith celf gyfoes yn apelio yn yr un modd â'r artistiaid byd enwog a nodwyd yn yr astudiaeth ymarferoldeb wreiddiol. Er gwaethaf hynny, ni holodd Cyngor Celfyddydau Cymru Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd ynglŷn â'r newidiadau hyn yn y rhaglen na'r effaith niweidiol a gaent ar nifer y bobl a fyddai'n ymweld â'r Ganolfan a thrwy hynny ymarferoldeb ariannol y project.

2.24 Yn yr astudiaeth ymarferoldeb a baratowyd ym 1992 bu awgrym y dylid codi Canolfan Hysbysrwydd i Dwristiaid a Dinasyddion o fewn Canolfan y Celfyddydau Gweledol er mwyn helpu i ddenu pobl i mewn i'r adeilad. Y bwriad oedd y byddai'r ganolfan yn rhoi cyngor ar leoedd diwylliannol a hanesyddol i ymweld â hwy yng Nghymru. Roedd y ganolfan hon yn bwysig o ran gallu'r Ganolfan i ddenu'r nifer angenrheidiol o ymwelwyr, ym marn Cyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, ni chafodd y Ganolfan Hysbysrwydd ei chynnwys yn y cynlluniau terfynol a'r ceisiadau am arian loteri ac, unwaith eto, ni phwysodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar y sefydliad o ran effaith debygol hyn ar nifer yr ymwelwyr a'r refeniw.

Ni weithredwyd ar bryderon ynglŷn â lefel arbenigedd y Ganolfan

2.25 Roedd llwyddiant Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn dibynnu'n fawr iawn ar ddenu niferoedd uchelgeisiol o ymwelwyr ac roedd ymgyrch farchnata rymus iawn yn hanfodol i gyflawni hynny. Beirniadwyd y cynigion ar gyfer marchnata Canolfan y Celfyddydau Gweledol gan yr aseswr allanol a gyflogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ym 1995 i asesu'r cynllun busnes a gyflwynwyd ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn y cais am arian loteri. Yn arbennig, nododd yr aseswr:

- ▶ bod cyflog o £15,000 ar gyfer Cynorthwy-ydd Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn tanbrizio pwysigrwydd y rôl yn sylweddol;
- ▶ nad oedd unrhyw gynllun marchnata manwl; a
- ▶ bod y cynnig yn wan o ran materion yn ymwneud â marchnata.

2.26 Tynnwyd sylw Cyngor y Celfyddydau at bryderon ynglŷn â marchnata project Canolfan y Celfyddydau Gweledol unwaith eto yn rhai o ganfyddiadau'r arolwg agwedd a gynhaliwyd ym 1996 (gweler paragraff 2.17) a gyflwynwyd i'r Cyngor gan yr ymgeisydd fel rhan o'r trydydd cais am arian loteri, yn benodol:

- ▶ mai dim ond chwech y cant o'r rhai a ymatebodd a oedd yn gwybod ym mha fodd y bwriadwyd defnyddio'r Hen Lyfrgell, sy'n ymateb isel iawn o gofio yn wreiddiol bod bwriad i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol agor ym mis Rhagfyr 1997; a
- ▶ nad oedd bron 49 y cant o'r rhai a ymatebodd yn gyfarwydd a'r term "Y Celfyddydau Gweledol" ac na allent ei ddiffinio'n hawdd; ond, er gwaethaf hyn, penderfynwyd marchnata'r atyniad fel Canolfan y Celfyddydau Gweledol Caerdydd o hyd.

2.27 Nododd yr aseswr allanol hefyd fod angen mwy o arbenigedd busnes ar dîm rheoli Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd ac, yn benodol, argymhellodd y dylid penodi unigolyn â phrofiad o reoli atyniadau i ymwelwyr.

2.28 Ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar y pryderon hyn a fynegwyd gan yr aseswr allanol wrth benderfynu a ddylid rhoi arian loteri. Ac ni fynnodd y dylai Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd fynd i'r afael â'r gwendidau hyn yn ei chynigion ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol fel amod o gymorth grant pellach.

Arweiniodd diffyg nawdd preifat at broblemau o ran referniw

2.29 Nododd aseswr allanol y cynllun busnes yn ei adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru fod Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd wedi canolbwyntio ar godi arian at gost gyfalaf y project, sef adnewyddu adeilad yr Hen Lyfrgell, a bod y rhan fwyaf o'r arian yn dod o gyrrff cyhoeddus a sefydliadau elusenol. Fodd bynnag, ychydig o waith a wnaed i ddenu noddwyr preifat i gefnogi'r project ar ôl iddo agor. Felly roedd y project yn dibynnu'n fawr ar ddenu niferoedd mawr o ymwelwyr er mwyn cyrraedd ei dargedau referniw. Yn ôl cyngor yr aseswr allanol gallai'r Ganolfan fod yn llai dibynnol ar referniw o'r fath pe gellid darbwyllo cwmnïau'r sector preifat i noddi arddangosfeydd unigol, gan roi incwm ychwanegol at yr hyn a godwyd drwy dâl mynediad. Awgrymodd y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru benodi rheolwr datblygu i ddenu nawdd preifat. Fodd bynnag, ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar y risg sylfaenol hon a nodwyd sef na allai Canolfan y Celfyddydau Gweledol gynhyrchu digon o incwm i fod yn ddiddyled heb gymorth y sector preifat.

2.30 Ym mis Gorffennaf 2000, gyda Chanolfan y Celfyddydau Gweledol bellach mewn dyled, comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru David Elford o Do It Online Ltd, sef cwmni ymgynghori ar y celfyddydau, i ymchwilio i'r rhesymau dros broblemau ariannol y Ganolfan ac i nodi opsiynau ar gyfer y dyfodol. Nododd mai un o'r rhesymau allweddol dros broblemau ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y diffyg referniw ar ffurf arian nawdd.

Bu gorwariant sylweddol ar gost y project yn dilyn amcangyfrifon gwael o gostau adeiladu

2.31 Cymeradwyodd Cyngor Celfyddydau Cymru y cais cyntaf gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd am £2 filiwn o arian loteri ym 1995 ar sail darluniau rhagarweiniol y pensaer, neu gam B Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain. O ganlyniad, dim ond amcangyfrifon bras o'r costau adeiladu oedd ar gael. Bellach mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gofyn i ymgeiswyr ddilyn y tri cham canlynol ar gyfer projectau cyfalaf mawr o'r fath, sef:

- ▶ ymarferoldeb
- ▶ datblygiad (yn cynnwys darluniau terfynol, cynllun costio a chynllun busnes ar gam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain; a
- ▶ cais llawn.

2.32 Oherwydd diffygion y cynlluniau a'r amcangyfrifon gwreiddiol o waith adeiladu ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol, bu'n rhaid gwneud sawl newid i'r cynlluniau rhwng 1995 a 1997 gan beri i gostau'r adeilad gynyddu. Cafodd manyleb yr adeilad ei newid a'i diwygio sawl gwaith gan

Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd pan oedd yn cael ei godi, yn cynnwys uwchraddio gosodiadau a chelfi, drysau mewnol, porth gwydr, ac eitemau ychwanegol megis TG nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwreiddiol. Ar ben hynny, penderfynodd Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd newid ei thim cynllunio a chynllun yr adeilad hefyd. Mae **Ffigur 10** yn rhestru'r newidiadau a arweiniodd at gostau sylweddol uwch na'r rhagamcanion gwreiddiol. Rhoddwyd grantiau eraill o arian loteri ar gyfer llawer o'r meysydd a restrwyd yn **Ffigur 10**. Unwaith i ffigurau'r ail dendr gael eu cadarnhau roeddent yn amcangyfrif cadarnach a chwblhawyd y gwaith adeiladu a oedd yn weddill o fewn y gyllideb.

2.33 Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru o dan bwysau i wneud penderfyniad buan ynglŷn â'r cais cyntaf am arian loteri. Yn sgil ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru, bu'n rhaid gwneud penderfyniad i barhau â'r project cyn 1 Ebrill 1996. Fel arall, ni fyddai wedi bod yn bosibl trosglwyddo'r adeilad a'r cyllid cysylltiedig i Gyngor newydd Sir Caerdydd.

Ffigur 10

Amrywiaeth rhwng y cais cyntaf am arian loteri a thendr yr ail gam

Elfen	Y cais cyntaf am arian loteri [Mawrth 1995] £	Tendr yr ail gam [Mawrth 1997] £	Amrywiaeth cynnydd / (gostyngiad) £
Seilwaith	14,000	199,507	185,507
Ffrâm, lloriau uchaf a grisiau	412,000	507,683	95,683
Tô, waliau, drysau a ffenestri allanol	347,000	468,929	121,929
Drysau, waliau a pharedau mewnol	97,000	522,639	425,639
Gwaith dymchwel ac addasu	104,000	394,364	290,364
Gorffeniadau waliau, lloriau a'r nenfwd	385,000	308,724	(76,276)
Gosodiadau a chelfi	325,000	256,641	(68,359)
Gosodiadau glanweithiol	12,000	80,376	68,376
Gwasanaethau	2,017,000	1,815,901	(201,099)
Gwaith allanol	54,000	287,508	233,508
Gwaith rhagarweiniol	650,000	651,691	1,691
Costau cynllunio a gostyngiad y prif gontractwr	Yn yr uchod	198,576	198,576
Is-gyfanswm y prif gontract	4,417,000	5,692,539	1,275,539
Costau annisgwyl, chwyddiant, ffioedd, cost rheoli ac arolygon	1,783,000	2,332,857	549,857

Pwyntiau allweddol

2.34 Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y project mawr cyntaf y rhoddwyd cymorth iddo gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Defnyddiodd Cyngor y Celfyddydau ei weithdrefnau safonol ar gyfer asesu ceisiadau am arian loteri, yn cynnwys cael cyngor annibynnol gan aseswr allanol ynglŷn â'r project, wrth benderfynu ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

2.35 Fodd bynnag, roedd nifer o risgiau allweddol i lwyddiant ariannol project Canolfan y Celfyddydau Gweledol; yn benodol, roedd y targed ar gyfer nifer yr ymwelwyr yn dwyn risg sylweddol. Byddai unrhyw ddiffyg yn y niferoedd hyn yn golygu na fyddai'r Ganolfan yn cael yr incwm disgwylidiedig drwy godi tâl ar ymwelwyr gan arwain at golledion gweithredol na ellid eu cynnal. Mae nifer yr ymwelwyr yn dibynnu yn sylweddol ar natur yr atyniad a'r polisi tâl mynediad.

- Yn y cais cyntaf am arian loteri tybiwyd y byddai 250,000 o bobl yn ymweld â'r Ganolfan bob blwyddyn, sef ffigur tipyn yn uwch na phob atyniad diwylliannol ac artistig arall yng Nghymru namyn un (Sain Ffagan). Roedd y rhagamcan chwyddedig hwn o ran y nifer o ymwelwyr- yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â natur yr atyniad a pholisi talu a newidiwyd yn hwyrach- wedi arwain at darged refeniw rhy uchelgeisiol ar bob cam o'r ffordd gan gynnwys y cais am grant loteri. Dim ond 47,000 o bobl a ymwelodd â'r Ganolfan yn y flwyddyn gyntaf o gymharu â'r 250,000 a ragwelwyd yn y cais am grant.

- Ni heriodd Cyngor Celfyddydau Cymru y tybiaethau sylfaenol ynghylch y niferoedd tebygol o bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol ac nid asesodd yr effaith bosibl ar ymarferoldeb ariannol y project pe na bai'r Ganolfan yn cyrraedd y targedau hyn.

- At hynny, pan ddiwygiodd yr ymgeisydd yr amcangyfrifon o nifer y bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol ar gamau allweddol drwy gydol y project, ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru herio'r amcangyfrifon diwygiedig, nac asesu'r effaith a gâi hyn ar yr incwm tâl mynediad a ragwelwyd i'r Ganolfan.

- Newidiwyd y strwythur arfaethedig ar gyfer codi tâl ar ymwelwyr ynghyd â rhaglen a chynnwys agoriadol Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru yr effaith bosibl a gâi'r newidiadau hyn ar nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd. Ni phwysodd ar yr ymgeisydd ychwaith i egluro sut y byddai Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn gwneud yn iawn am unrhyw ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr.

2.36 Roedd gwendidau pwysig eraill yn y ffordd yr ymdriniodd Cyngor Celfyddydau Cymru â'r cais hwn am grant loteri sylweddol:

- Tynnwyd sylw Cyngor Celfyddydau Cymru at wendidau yn y project hwn, o ran ei farchnata a diffyg nawdd refeniw preifat gan aseswr allanol y Cyngor. Ond ni weithredodd y Cyngor ar hyn, er enghraifft drwy bwysu ar yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn fel amod o'r grant.

- Ni chafodd y cais cyntaf am £2 filiwn o arian loteri ei ategu gan wybodaeth gadarn a dibynadwy. Seiliwyd llawer o'r penderfyniadau allweddol ynglŷn ag ymarferoldeb y project ar yr adroddiad ymarferoldeb a baratowyd ym 1992, bron tair blynedd cyn y cais cyntaf am arian loteri. At hynny, roedd yr amcangyfrifon o gostau'r adeilad yn annigonol, ac o ganlyniad, bu'n rhaid gwneud cais arall am arian loteri i dalu am y cynnydd sylweddol mewn costau adeiladu.

RHAN 3: Y Ffordd y Cafodd y Broses o Ddatblygu, Gweithredu a Chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei Monitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y ffordd y cafodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei monitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ar ôl iddo benderfynu rhoi arian loteri i'r Ganolfan. Yn benodol mae'n ystyried:

- ▶ rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru dros brojectau loteri;
- ▶ y ffordd y gwnaeth y Cyngor asesu risg a monitro Canolfan y Celfyddydau Gweledol; a
- ▶ y broses o gau Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

Cyfrifoldeb Cyngor Celfyddydau Cymru dros brojectau loteri

3.2 Mae'n ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru o dan y cyfarwyddiadau ariannol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu systemau monitro a gwerthuso sy'n profi:

- ▶ bod grantiau loteri yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd a bod y brojectau a gefnogwyd yn rhoi gwerth am arian; a
- ▶ bod y brojectau loteri yn cyflawni'r manteision a nodwyd yn y cais.

3.3 Mae'r ffordd y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn monitro project loteri yn allweddol o ran nodi problemau posibl yn fuan er mwyn eu hosgoi neu eu datrys yn gyflym. Sefydlodd y Cyngor drefniadau monitro drwy gydol oes project loteri, gan gynnwys:

- ▶ tra roedd y project yn cael ei adeiladu neu cyn ei gwblhau- monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaid ag amodau'r grant a bod y project yn gyson â'r cais a gymeradwywyd; ac
- ▶ ar ôl cwblhau'r project -monitro er mwyn sicrhau bod y project yn cyflawni ei amcanion a bod yr ymgeisydd yn cydymffurfio ag amodau'r grant.

3.4 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cael arian loteri roi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y project. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi monitrwyr project annibynnol ar gyfer pob project sy'n cael dros £100,000 o arian loteri, er mwyn monitro a rhoi adroddiad ar gynnydd y project. Mae'n ofynnol i fonitrydd y project roi gwybodaeth i'r Cyngor a

fydd yn nodi a yw'r project yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad, o ran amserlen, cynllun, costau ac ansawdd y gwaith adeiladu.

Ni wnaeth Cyngor Celfyddydau Cymru asesiad risg llawn o broject Canolfan y Celfyddydau Gweledol

3.5 Ar ôl i'r penderfyniad i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol gael ei wneud ac ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, roedd cyfrifoldeb ar Gyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau y byddai'r arian loteri yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd, i asesu a monitro'r risgiau cysylltiedig ac i sicrhau bod y project wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac yn brydlon. Nid oes yr un project celfyddydol wedi'i ariannu gan y loteri heb risgiau ac mae dyletswydd ar Gyngor Celfyddydau Cymru i reoli'r risgiau hyn mewn modd priodol er mwyn diogelu arian y loteri.

3.6 Fel y nodwyd yn Rhan 2 o'r adroddiad, bu nifer o risgiau o ran ymarferoldeb ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol, yn arbennig:

- ▶ roedd y rhagamcan o nifer y bobl a fyddai'n ymweld â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol yn rhy uchelgeisiol, ac felly ni fyddai'r Ganolfan yn cael yr incwm disgwylidig o'r tâl mynediad a godir; a

- ▶ nid oedd gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ddigon o nawdd i helpu i dalu am ei chostau gweithredol blynyddol.

3.7 Nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru y risgiau hyn yn llawn ac ni ddatblygwyd unrhyw gynllun wrth gefn y gellid ei roi ar waith pe bai'r risgiau hyn yn codi. Mae ffurflen y Cyngor ar gyfer gwneud cais am arian loteri yn gofyn i'r ymgeisydd ateb y cwestiwn: "Beth yw eich cynlluniau wrth gefn os cyfyd problemau sylweddol gyda'r project?" Nid atebwyd y cwestiwn hwn yng nghais Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd. Yn hytrach rhoddwyd enw'r Ymddiriedolwr yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu rhoi'r cyfrifoldeb dros fonitro'r project iddo. Ni phwysodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar yr ymgeisydd i nodi cynlluniau wrth gefn ar y cam hwn neu unrhyw gam arall o'r project.

3.8 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod y gellid bod wedi osgoi'r colledion drwy gynllunio wrth gefn digonol. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei weithdrefnau sydd bellach yn gofyn i ymgeiswyr roi gwybodaeth dipyn yn fanylach ar gam cynllunio a datblygu'r cais am arian loteri, gan gynnwys dadansoddiad risg ffurfiol o'r project.

Ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar bryderon a godwyd tra'n monitro Canolfan y Celfyddydau Gweledol

3.9 Yn Nhachwedd 1996 penododd Cyngor Celfyddydau Cymru Siarllys Evans, pensaer o 'Chadwick Jones Associates', sef cwmni ymgynghoriaeth celfyddydau, fel ei fonitrydd project annibynnol ar gyfer y cam adeiladu o broject Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Adolygwyd gwariant misol y Ganolfan gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chynhaliwyd trafodaethau anffurfiol â monitrydd y project er mwyn adolygu'r symiau o arian a ddefnyddiwyd a chostau'r project. Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru i fonitrydd y project roi adroddiad ffurfiol dim ond pan gododd problem benodol, neu ar adegau gwaith priodol o'r project fel ceisiadau pellach am arian. Yn y cyfnod rhwng ei apwyntiad yn 1996 a chau'r Ganolfan ym mis Tachwedd 2000, cyflwynodd monitrydd y project bump adroddiad i Gyngor Celfyddydau Cymru ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

3.10 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi adolygu ei ganllawiau fel bod derbynwyr yn cyflwyno eu ceisiadau am daliadau yn fisol. Mae'r Cyngor yn archwilio pob cais i sicrhau ei fod yn ddilys a bod y project yn rhedeg i amser. Os oes ganddo unrhyw bryderon, bydd y Cyngor yn gofyn i'r monitrydd project i ymweld â'r safle a pharatoi adroddiad. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dweud wrthym ni y bydd, yn y dyfodol, yn cadw'r arian misol, os nad yw'n fodlon gyda datblygiad y project.

Yr oedi cyn cael gwybodaeth am Ganolfan y Celfyddydau Gweledol

3.11 Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru profiad o oedi cyn cael y wybodaeth ariannol ddiweddaraf ynglŷn â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd pan oedd y project yn cael ei adeiladu a hefyd ar ôl iddo agor i'r cyhoedd. Golygai hyn fod y datganiadau ariannol yn dod i law Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhy hwyr i sicrhau bod ganddo ddigon o amser i weithredu ar unrhyw bryderon. Ym mis Ionawr 2000, tri mis ar ôl

i'r Ganolfan agor a phan ddylai fod wedi bod yn amlwg bod problemau ariannol yn codi, y ffigurau ariannol mwyaf diweddar oedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru oedd ffigurau diwedd Awst 1999.

Monitro aneffeithiol

3.12 O dan amodau safonol grantiau loteri, mae dyletswydd ar yr ymgeisydd i hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru o newidiadau i fanyleb y project. Fodd bynnag, nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymwybodol o rai newidiadau allweddol yn y project. Ym mis Mawrth 1999, trefnodd Cyngor Celfyddydau Cymru ymweliad monitro â safle Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ar y cyd â'r monitrydd. Yn ystod yr ymweliad hwn canfuwyd bod yr adeilad wedi newid o'r cynlluniau gwreiddiol ac nad oedd digon o le storio diogel. Roedd lle storio o'r fath yn hanfodol i'r oriel allu cynnal arddangosfeydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol; roedd y lle storio wedi'i gynnwys yn y cynlluniau Cam D a gyflwynwyd yn y cais ym mis Ionawr 1997, ond cafodd ei newid heb yn wybod i Gyngor Celfyddydau Cymru ac nid oedd yn rhan o'r adeilad terfynol. Felly canfu proses fonitro'r Cyngor y newid hwn yn rhy hwyr yn ystod y project i gywiro cynllun yr adeilad.

Pryderon a godwyd gan fonitrydd annibynnol y project

3.13 Apwyntiodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei asesydd annibynnol gwreiddiol (McCann Matthews Millman) i fonitro'r datblygiadau gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd. Yn ei adroddiad i'r Cyngor ym mis Ionawr 1998, fe gododd e nifer o bryderon ynglŷn â'r project, gan nodi fod "gallu'r Ymddiriedolaeth i gyflwyno'r raglen wreiddiol yn ariannol yn fregus ar hyn o bryd" yn ei farn ef. Argymhellodd y dylai'r ymgeisydd wneud dadansoddiad sensitifrwydd i asesu'r effaith a gâi unrhyw fethiant i sicrhau incwm gan noddwyr, rhoddion elusenol a thâl mynediad, gan gynnwys "y sefyllfa waethaf oll", a'r camau y dylid eu cymryd yn sgil hynny. Fodd bynnag, ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar y pryderon a godwyd yn yr adroddiad hwn, er ei fod, ym mis Mawrth 1998, yn ystyried trydydd cais am arian loteri i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

3.14 Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd i fonitrydd y project wneud sylwadau ar y trydydd cais am offer a TG. Wrth adolygu'r cais, nododd monitrydd y project amheuan mawr ynglŷn ag ymarferoldeb ariannol y Ganolfan. Yn arbennig, nododd monitrydd y project nad oedd y cais am arian loteri wedi'i asesu eto yn erbyn meini prawf megis, yr effaith hirdymor ar sefydlogrwydd ariannol hirdymor yr ymgeisydd, arian partneriaeth ac ansawdd y cynllun a'r gwaith adeiladu.

Caeodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol oherwydd problemau ariannol

3.15 Roedd y project ar ei hôl hi o gymharu â'r amserlen. Yn y cais cyntaf am arian loteri rhagwelwyd y byddai'n agor ym mis Rhagfyr 1997 - fel y bu, agorodd y Ganolfan i'r cyhoedd ym mis Medi 1999, bron dwy flynedd yn ddiweddarach. Un canlyniad o ohirio agor Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd bod Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd wedi recriwtio staff tua chwe mis cyn i'r oriel agor mewn gwirionedd. O ganlyniad roedd gan yr oriel ddiffyg ariannol o £360,000 cyn i'r un ymwelydd groesi'r trothwy.

3.16 Pan aeth Canolfan y Celfyddydau Gweledol i drafferthion ariannol, nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn meddu ar y ffeithiau llawn, roedd yn cael anhawster cael gafael ar y ffeithiau llawn gan yr ymgeisydd ac nid oedd ganddo gynllun gweithredu ar waith i oresgyn y problemau ariannol. Pan gofnodwyd mai 47,000 o bobl a ymwelodd â'r ganolfan yn y flwyddyn gyntaf yn hytrach na'r 252,000 a ragwelwyd, roedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn wynebu'r posibilrwydd y byddai'n mynd yn ansolfent. Ym mis Mawrth 2000, cymerodd Cyngor Celfyddydau Cymru nifer o fesurau i geisio goresgyn problemau'r Ganolfan. Ymhlith y mesurau hyn roedd rhoi grant refeniw atodol o £50,080; gosod nifer o amodau llym ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ynghlwm â'r grant refeniw; a chomisiynu adroddiad gan David Elford o Do It Online Ltd, cwmni ymgynghori ar y celfyddydau, ar ddyfodol ariannol y Ganolfan. Roedd yr adroddiad hwn yn feirniadol iawn o'r cynllun busnes am Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, a daeth i'r casgliad mai tri opsiwn yn unig oedd gan y Ganolfan; sef llai o weithgareddau, mwy o grantiau neu gau. Fe bwysleisiodd bod angen rhyw £350,000 y flwyddyn o arain ychwanegol er mwyn i'r Ganolfan parhau i weithredu ar yr un lefel o weithgareddau. Llwyddodd y Ganolfan i sicrhau

arian ychwanegol gan ei noddwyr eraill: £450,000 gan Ymddiriedolaeth Elusenol Colwinston a benthyciad o £250,000 gan Gyngor Sir Caerdydd a oedd yn danysgrifenedig i drosglwyddiad o incwm o brydles y bar. Er gwaethaf yr arian ychwanegol hwn gan ei phrif noddwyr, ni lwyddodd y Ganolfan i godi digon o incwm at ei chostau rhedeg ac fe'i caewyd ym mis Tachwedd 2000.

Penderfynodd Cyngor Celfyddydau Cymru i beidio â gofyn yn syth i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ad-dalu arian y loteri

3.17 O dan yr amodau safonol sy'n gysylltiedig â phob swm o arian loteri a ddyfarnwyd, gall Cyngor Celfyddydau Cymru ofyn i'r ymgeisydd ad-dalu'r arian loteri os bydd yn peidio â gweithredu, yn mynd yn fethdalwr neu os bydd y project yn mynd i law'r derbynydd neu'n ymddatod. Fodd bynnag, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cytuno i beidio â gweithredu'r ddarpariaeth adfachu o ran yr arian loteri a ddyfarnwyd, ar yr amod bod yr Ymddiriedolwyr yn trosglwyddo'r asedau i sefydliad elusenol trydydd parti. Nid yw wedi penderfynu eto a ddylid adennill ynteu dileu'r grant adnewyddu. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud ar ôl penderfynu ar y defnydd a wneir o'r adeilad yn y dyfodol.

3.18 Mae Memorandwm Sefydlu Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd yn darparu i asedau dros ben gael eu rhoi neu eu trosglwyddo i sefydliadau elusenol eraill a chanddynt amcanion tebyg, os bydd yr Ymddiriedolaeth yn dirwyn i ben neu'n cael ei diddymu. Roedd gwaredu asedau Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn fater i Ymddiriedolaeth yr Hen Lyfrgell Caerdydd. Gyda chaniatâd Cyngor Celfyddydau Cymru, trosglwyddodd Hen Lyfrgell Caerdydd asedau Canolfan y Celfyddydau Gweledol i gwmni elusenol trydydd parti i reoli waredu'r asedau hyn. Gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru am restr eiddo llawn ym mis Tachwedd 2000, mis ar ôl cau'r Ganolfan, ond ni ddaeth y rhestr hon i law gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd tan Ebrill 2001. Mae asedau gwerth £103,600 bellach wedi'u hailddyrannu i sefydliadau celfyddydol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, ym mis Medi 2001, roedd eitemau gwerth dros £100,000 a ariannwyd yn rhannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar restr eiddo Canolfan y Celfyddydau Gweledol heb eu hadennill (Ffigur 11).

Ffigur 11

Rhestr Eiddo asedau a ariannwyd gan y loteri sydd heb eu hadennill gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Eitemau	Cost yr eitemau £	Cyfanswm y gost £
Wedi'u gadael yn yr Hen Lyfrgell		
Dodrefn	46,743	} 87,175
Offer TG	38,286	
Amrywiol	2,146	
Wedi'u dal gan Ymddiriedolwr		
Dodrefn	518	518
Wedi'u prynu gan aelodau o staff		
Offer TG	7,733	7,733
Na ddaethpwyd o hyd iddynt		
Offer TG	6,130	} 12,497
Offer Adeiladu	4,594	
Dodrefn	238	
Amrywiol	225	
Offer gwneud te/coffi a llestri	1,310	
Cyfanswm nas adenillwyd		107,923

3.19 Mae asedau o £87,175 dal yn adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd ac yn cynnwys eitemau sydd ddim yn hawdd eu cymryd i ffwrdd, fel desg dderbynfa wedi'i hadeiladu am y pwrpas, a system TG a gynlluniwyd yn arbennig i'r adeilad. O ran yr asedau hyn, yn cyfansymio i £20,230 nad oedd modd rhoi cyfrif amdanynt - hynny yw, yr eitemau hynny na ddaethpwyd o hyd iddynt neu'r eitemau a werthwyd i aelodau o staff - mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn disgwyl ymateb Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd iddynt.

Pwyntiau allweddol

3.20 Roedd nifer o wendidau yn y ffordd y cafodd project Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei fonitro gan Gyngor Celfyddydau Cymru:

- Nid asesodd Cyngor Celfyddydau Cymru y risgiau allweddol i'r gwaith o ddarparu a gweithredu Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn llwyddiannus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu monitro'n drwyadl. Ni sicrhodd y Cyngor ychwaith fod gwaith cynllunio wrth gefn digonol pe bai'r risgiau hyn yn codi.

- Pan oedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn cael ei hadeiladu, a phan oedd yn weithredol, roedd yn anodd i Gyngor Celfyddydau Cymru gael gwybodaeth reolaidd ac amserol ynglŷn â'r Ganolfan, ac roedd hyn yn rhwystro'r gwaith o fonitro'r project.
- Nid oedd y Cyngor yn monitro Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn effeithiol yn yr ystyr nad oedd yn ymwybodol bod y cynlluniau wedi newid mewn modd allweddol nes ei bod yn rhy hwyr i newid y cynllun adeiladu.
- Ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar bryderon a godwyd gan fonitrydd y project, er ei fod yn ystyried cais arall am arian loteri ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol.

3.21 Pan gaewyd Canolfan y Celfyddydau Gweledol ym mis Tachwedd 2000, ni cheisiodd Cyngor Celfyddydau Cymru weithredu'r amodau adfachu lle y gellid ceisio adennill yr arian a roddwyd i'r Ganolfan. Yn hytrach mae wedi trafod ag Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd i drosglwyddo asedau yn cyfansymio i ryw £104,000 i sefydliadau elusennol trydydd parti. Erbyn mis Medi 2001, roedd bron â bod £110,000 o eitemau a ariannwyd yn rhannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fel y'u rhestrwyd ar restr eiddo Canolfan y Celfyddydau Gweledol, heb eu hadennill. O'r swm hwn, mae asedau o £87,000 dal yn adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd ac yn cynnwys eitemau sydd ddim yn hawdd cymryd i ffwrdd, fel desg dderbynfa sydd wedi'i hadeiladu am y pwrpas. Mae gweddill yr asedau yn cyfansymio i ryw £20,000 ar goll neu wedi'u gwerthu i staff. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn aros am ateb Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd ynglŷn â beth sydd wedi digwydd i'r rhain.

ATODIAD 1: Cyfarwyddiadau Polisi a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru o dan adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wrth weithredu'r pwerau a roddwyd iddo o dan adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau canlynol i Gyngor Celfyddydau Cymru:

1 Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998.

2 Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried y materion canlynol wrth benderfynu ar y rhai y mae'n dosbarthu arian o adran 25(1) iddynt, at ba ddiben ac o dan ba amodau:

A yr angen i sicrhau y caiff arian ei ddsbarthu o dan adran 25(1) i broiectau sy'n hyrwyddo budd y cyhoedd neu ddibenion elusennol ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf at elw'r cyhoedd;

B yr angen i sicrhau ei fod yn ystyried ceisiadau sy'n ymwneud â'r ystod lawn o weithgareddau o dan adran 22(3)(b) y mae ganddo'r pŵer i ddsbarthu arian mewn perthynas â hwy, gan ystyried:

i ei asesiad o'r angen i ddatblygu'r celfyddydau a gweithgareddau celfyddydol a'i flaenoriaethau presennol i fynd i'r afael â hwy;

ii yr angen i sicrhau bod gan bob rhanbarth o Gymru fynediad i arian;

iii y cyfle i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd â chreu manteision i chwaraeon;

C yr angen i hybu mynediad i'r celfyddydau i bobl o bob rhan o gymdeithas;

CH yr angen i feithrin gwybodaeth plant a phobl ifanc am y celfyddydau a'u diddordeb ynddynt;

D yr angen i hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy;

DD anghenion projectau sy'n ymwneud â ffilm a delweddau symudol, ac yn arbennig yr angen i feithrin datblygiad strwythurau cynaliadwy yn y diwydiant ffilm drwy, ymhlith pethau eraill, gefnogi'r gwaith o ddatblygu, dosbarthu a hyrwyddo ffilmiau yn ogystal â'u cynhyrchu;

E anghenion projectau sy'n ymwneud â'r crefftau;

F yr angen i ddsbarthu arian a ddsberthir o dan adran 25(1) i'r projectau hynny a chanddynt ddiben penodol â therfyn amser yn unig;

FF yr angen:

i i ymgeiswyr ymhob achos, brofi ymarferoldeb ariannol y project dros gyfnod y grant;

ii am gynllun busnes clir y tu hwnt i gyfnod y grant, yn ymgorffori'r ddarpariaeth ar gyfer costau rhedeg a chynnal a chadw cysylltiedig lle y gwneir cais am arian cyfalaf neu gostau cychwyn;

iii i ystyried mewn achosion eraill, pa mor debygol yw y bydd arian arall ar gael am unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i gyfnod dyfarniad y Loteri ddod i ben, gan ystyried maint a natur y project, ac i ddefnyddio arian y Loteri i hyrwyddo ymarferoldeb y tu hwnt i gyfnod y grant lle bynnag y bo modd;

G dymunoldeb cefnogi datblygiad ymarferoldeb ariannol a rheoli hirdymor sefydliadau sy'n ymwneud â'r celfyddydau. O ystyried hyn bydd Cyngor y Celfyddydau yn rhoi sylw i Gyfarwyddyd F.

NG yr angen i ofyn am rywfaint o arian partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da, o ffynonellau eraill, yn gymesur â gallu rhesymol pob math o gais, neu i ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol gael cymorth o'r fath;

H dymunoldeb gweithio â sefydliadau eraill, yn cynnwys dosbarthwyr eraill, lle y bo'n fodd effeithiol i gyflawni rhannau o'i strategaeth;

I yr angen i sicrhau nad yw'n annog ceisiadau penodol;

L y cyfryw wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu ar bob cais, yn cynnwys cyngor annibynnol pan fo angen.

Llofnodwyd drwy awdurdod Ysgrifennydd Gwladol Cymru

ATODIAD 2: Noddwyr project cyfalaf ac incwm refeniw

Noddwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol

Cyngor Celfyddydau Cymru	£3,239,709
Cyngor Sir Caerdydd	£3,100,000
Ymddiriedolaeth Elusenol Colwinston	£1,150,250
Cronfa Dreftadaeth y Loteri	£758,300
Bwrdd Croeso Cymru	£108,000
Sefydliad dros Chwaraeon a'r Celfyddydau	£75,000
Ymddiriedolaeth Derek Williams	£65,000
Sefydliad Elusenol Esmée Fairburn	£50,000
Cadw	£11,644
Cyfraniadau o £10,000 neu lai gan wyth o sefydliadau elusenol neu unigolion	£37,750
Codi arian nad yw'n arian parod a throsglwyddo o'r contract adeiladu	£117,500
Cyfanswm	£8,713,153

Incwm refeniw

	1999/2000	2000/2001 (Rhagamcanion ym mis Gorffennaf 2000)
Tâl mynediad	52,862	60,662
Rhent y Bar	113,402	124,228
Masnachfaint y Café	2,100	3,170
Incwm rhent	1,519	6,350
Hurio ystafelloedd Cynadledda	14,123	23,113
Aelodaeth gorfforaethol	4,500	1,000
Nawdd ac ymddiriedolaethau	25,376	5,610
Incwm grant arall	37,037	82,038
Grant mewn cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru	279,942	210,275
Grant atodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru	50,080	-
Grant Ymddiriedolaeth Colwinston	-	300,000
Gwarant ymddiriedolwyr	-	150,000
Llog	1,424	-
Cyfanswm	582,365	966,446

ATODIAD 3: Cronoleg/digwyddiadau allweddol Canolfan y Celfyddydau Gweledol

Dyddiad	Digwyddiad
Awst 1986	Trafodaethau rhwng hen Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Caerdydd yn dechrau ynglŷn â dyfodol yr Hen Lyfrgell, Caerdydd a'r angen am ganolfan bwysig i'r celfyddydau yng Nghaerdydd. Ystyriwyd nifer o opsiynau a chynigion.
Mawrth 1992	Hen Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Caerdydd yn sefydlu grŵp llywio ar y cyd i ymchwilio i sut y gellid gwneud defnydd diwylliannol o adeilad yr Hen Lyfrgell
Mehefin 1992	Y grŵp llywio ar y cyd yn comisiynu ymgynghorwyr rheoli (Adrian Ellis Associates) i wneud astudiaeth ymarferoldeb o'r weledigaeth ddiwylliannol ar gyfer yr adeilad, yn cynnwys cynllun busnes tair blynedd, wedi'i hariannu gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru am gost o £19,500.
Hydref 1993	Cwblhau'r astudiaeth ymarferoldeb - mae'n rhagweld y bydd 282,000 o bobl yn ymweld â'r Ganolfan yn y flwyddyn gyntaf, gan gynyddu i 345,000 erbyn blwyddyn 10, gyda thâl mynediad o £2.00, chost gyfalaf o £6.2 miliwn.
Mai 1993	Hen Gyngor Celfyddydau Cymru yn nodi y byddai'n rhoi £200,000 o arian refeniw y flwyddyn. Cyngor Sir Caerdydd yn rhoi £3.1 miliwn, a- thrwy osod adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd ar brydles am rent rhad - gan adael £3.1 miliwn arall i'w godi.
Chwefror 1994	Creu Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd, cwmni cyfyngedig drwy warant fel modd i godi arian i ailddatblygu Hen Lyfrgell Caerdydd. Cofrestru'r Ymddiriedolaeth yn elusen.
Ebrill 1994	Sefydlu Cyngor Celfyddydau Cymru fel un o gyrff olynol Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr.
Tachwedd 1994	Lansio'r Loteri Genedlaethol.
Ionawr 1995	Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd yn gwneud cais i Gyngor Celfyddydau Cymru am £2 filiwn o arian loteri i'w fuddsoddi yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol.
Chwefror 1995	Adroddiad gan asesydd annibynnol (McCann Matthews Millman)
Mawrth 1995	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu £2 filiwn o arian loteri i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.
Ionawr 1997	Monitrydd y project (Siarlys Evans) yn cyflwyno adroddiad dros-dro.
Ionawr 1997	Ail gais am arian loteri gwerth £1.55 miliwn i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol.
Chwefror 1997	Adroddiad gan yr asesydd annibynnol (Mc Cann Matthews Millman)
Chwefror 1997	Adroddiad gan fonitrydd y project (Siarlys Evans)
Mawrth 1997	Adroddiad gan fonitrydd y project (Siarlys Evans)
Mawrth 1997	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu grant o £723,000 o arian loteri.
Ionawr 1998	Adroddiad monitro gan yr asesydd annibynnol gwreiddiol (McCann Matthews Millman)
Chwefror 1998	Trydydd cais am arian loteri gwerth £550,000 i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol.
Mawrth 1998	Adroddiad gan fonitrydd y project (Siarlys Evans)
Mai 1998	Cyngor Celfyddydau Cymru yn dyfarnu grant o £550,000 o arian loteri.
Medi 1999	Adroddiad gan fonitrydd y project (Siarlys Evans).
Chwefror 1999	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymeradwyo grant cymorth refeniw blynyddol a chost project o £279,942 cyn agor.
Medi 1999	Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn agor.
Chwefror 2000	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymeradwyo grant refeniw blynyddol o £210,275
Mawrth 2000	Cyngor Celfyddydau Cymru yn cymeradwyo grant refeniw atodol o £50,080.
Gorffennaf 2000	David Elford yn cyflwyno adroddiad ar ymarferoldeb Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn y dyfodol.
Tachwedd 2000	Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn cau.